

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyfarfod:	Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd
Dyddiad:	18 Medi 2024
Teitl yr adroddiad:	Ymgynghoriad ar ymestyn darpariaethau rhannu swydd ar gyfer aelodau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth.
Adroddiad gan:	Pennaeth Gwasanaethau Democraidd
Pwrpas yr Adroddiad:	Derbyn cydsyniad i'r ymateb drafft.

Cefndir

- Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys darpariaeth i hwyluso trefniadau rhannu swyddi mewn rolau sy'n rhan o weithrediaeth (pwyllgor gwaith) cyngorau sir.
- Rhoddwyd hynny ar waith ym Môn ym mis Mawrth 2023 pan gyfunodd y Cyngor Sir i newid y cyfansoddiad er mwyn caniatáu i un neu fwy o Aelodau rannu swydd Arweinydd, Dirprwy Arweinydd neu fel aelodau portffolio o'r Pwyllgor Gwaith. Yn dilyn hynny mae trefniadau rhannu swydd wedi bod yn weithredol gyda dau aelod yn rhannu swydd dirprwy arweinydd.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ymgynghori ar gynlluniau i ehangu y ddarpariaeth rhannu swyddi i rolau uwch eraill hefyd, yn cynnwys cadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau. Mae dolen i'r ymgynghoriad ar gael yma - [Ymestyn darpariaethau rhannu swydd ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau i rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth | LLYW.CYMRU](#)
- Mae'r Llywodraeth o'r farn bod cynnig opsiynau i aelodau rannu swyddi yn gallu hybu amrywiaeth, yn gallu sefydlu llwybrau dilyniant gyrfa ac yn gallu helpu'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Cynigion

- Mae trefniadau rhannu swyddi pwyllgor gwaith eisoes mewn lle, felly nid yw'r ymgynghoriad hwn yn delio gyda hynny. Nid yw ychwaith yn delio gyda rhannu swydd yn achos pob cynghorydd (h.y. rhannu swydd ar y papur pleidleisio). Mae

hynny'n fater cymhleth, ac mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymgynghori ar hynny yn y dyfodol.

6. Yn hytrach, mae'r ymgynghoriad yma'n delio yn benodol gyda rhannu swyddi uwch sydd ddim yn rhan o'r pwyllgor gwaith, er enghraifft cadeirydd ac is-gadeirydd y Cyngor Sir, cadeirydd ac is-gadeirydd pwyllgor o'r Cyngor, a cadeirydd ac is-gadeirydd is-bwyllgor o'r Cyngor.
7. Mae'r ymgynghoriad yn egluro beth fyddai'r trefniadau ymarferol pe bai rhannu swyddi yn digwydd. Er enghraifft, cynigir bydd gan y rhai sy'n rhannu swydd un bleidlais rhyngddynt a'u bod yn cyfrif fel un person yn unig at ddibenion cworwm. Bydd y rhai sy'n rhannu swyddi yn rhannu lwfansau hefyd (os oes rhai yn daladwy).
8. Mae cyfraith yn mynnu bod y rhan fwyaf o bwyllgorau cynghorau sir yn rhai sy'n gytbwys yn wleidyddol. Golyga hynny dylai seddi pwyllgorau adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor. Mae'r ymgynghoriad yn egluro na ddylai trefniadau rhannu swydd effeithio ar gydbwysedd gwleidyddol pwyllgorau. Felly bydd angen i'r rhai sy'n rhannu swyddi fod o'r un grŵp gwleidyddol, oni bai bod amgylchiadau eithriadol pan na fydd hynny'n bosibl.
9. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud rheoliadau a chyhoeddi canllawiau i roi arweiniad manylach ar y trefniadau rhannu swyddi.
10. Os ddaw y trefniadau yma i rym, bydd angen gwneud addasiadau i gyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn i sicrhau cysondeb ac arweiniad priodol ar lefel lleol.

Ymateb drafft

11. Mae'r ymateb drafft yn atodiad 1, yn nodi cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion. Mae'r egwyddor o hybu amrywiaeth a chydbwysedd bywyd gwaith aelodau yn un pwysig ac ar y cyfan, mae'r ymgynghoriad yn delio'n llwyddiannus gyda'r cwestiynau ymarferol sy'n codi gyda'r cynigion.
12. Mae'r ymateb yn nodi bod angen eglurdeb pellach ar sefyllfa pleidleisio pan fo dau aelod yn rhannu swydd Cadeirydd a'r ddau hefyd yn aelodau cyffredin o bwyllgor. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gynhyrchu canllawiau, felly bydd hynny'n gyfle i ddarparu arweiniad pellach.

Argymhelliad

13. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr ymateb drafft a chydsynio i swyddogion ei anfon erbyn y dyddiad cau ar 4 Hydref 2024.

Atodiad 1

Ymgynghoriad ar ymestyn darpariaethau rhannu swydd ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau i rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth

Cwestiynau

C1. Byddai gennym ddiddordeb mewn unrhyw sylwadau / safbwyntiau sydd gennych ar weithredu trefniadau rhannu swydd mewn rolau gweithrediaeth o fewn cynghorau yng Nghymru. Nodwch hwy yn y blwch isod.

Mewn cyfarfod o'r Cyngor ym mis Mawrth 2023, cytunodd Cyngor Sir Ynys Môn i newid ei gyfansoddiad er mwyn caniatáu i un neu fwy o Aelodau rhannu swydd Arweinydd, Dirprwy Arweinydd neu fel aelodau portffolio o'r Pwyllgor Gwaith. Yn dilyn hynny mae trefniadau rhannu swydd wedi bod yn weithredol gyda dau aelod yn rhannu swydd dirprwy arweinydd.

C2. A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y trefniadau pleidleisio yn achos partneriaid nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth sy'n rhannu swydd ac y dylai manylion y dull gweithredu gael eu nodi yn y canllawiau?

Ydw

Nac ydw

Os 'nac ydw', pa ateb arall yr ydych yn ei gynnig?

Rydym yn cytuno gyda'r dull arfaethedig ac yn croesawu'r ymrwymiad i gynhyrchu canllawiau a fydd yn darparu eglurhad manylach.

A oes unrhyw faterion pellach yr hoffech gyflwyno sylwadau arnynt mewn perthynas â phleidleisio?

Mae'r cynnig yn glir mewn amgylchiadau lle mae dau aelod yn rhannu swydd cadeirydd (neu is-gadeirydd) ond nad ydynt fel arall yn aelodau o bwyllgor. h.y. un bleidlais rhwng y ddau aelod.

Onid byddai'n ddefnyddiol cael eglurhad ar y cynnig pan fydd dau aelod yn rhannu swydd cadeirydd (neu is-gadeirydd) ac mae'r ddau aelod hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor. Hynny yw, mewn sefyllfa o'r fath, a fyddai'r ddau aelod yn cael pleidlais?

C3. A ydych yn cytuno na ddylai trefniadau rhannu swydd effeithio ar gydbwysedd gwleidyddol pwyllgorau o dan amgylchiadau arferol?

Ydw

Nac ydw

C4. A ydych yn cytuno, yn yr achosion hynny lle mae rhannu swydd yn cynnwys partneriaid o wahanol bleidiau, y dylai'r holl bleidiau gytuno ar y dull o gyfrifo aelodaeth y pwyllgor?

Ydw

Nac ydw

Os 'Nac ydw', rhowch sylwadau:

Cytuno, ond y flaenoriaeth fydd ceisio sicrhau bod trefniadau rhannu swydd yn cynnwys aelodau o'r un grwp gwleidyddol.

C5. Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effeithiau y byddai'n newid arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?
- Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Mae'n annhebygol o gael effaith arwyddocaol ym Môn ble mae mwyafrif helaeth yr aelodau yn gallu siarad Cymraeg a gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob cyfarfod Cyngor Sir.

C6. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw broblemau cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, nodwch hwy isod.

Dim sylwadau ychwanegol.